# Wythnos Gwirfoddolwyr

## 1af—7fed Mehefin 2008

**Mae'r wythnos gyntaf ym mis Mehefin wedi hen ennill ei phlwyf yng nghalendr gwirfoddoli erbyn hyn, gan ei bod yn cael ei hadnabod yn genedlaethol fel "Wythnos Gwirfoddolwyr" ers 24 o flynyddoedd, bellach. Nod yr wythnos yw Cydnabod, Recriwtio a Gwobrwyo gwirfoddolwyr.**

Eleni, penderfynodd Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd nodi'r achlysur drwy drefnu dau brif weithgaredd:-

i) **Stondin Deithiol** - Bu'r stondin deithiol ym Mangor, Pwllheli, Porthmadog a Dolgellau yn ystod yr wythnos. Gwelir hyn fel cyfle i hyrwyddo gwirfoddoli, recriwtio gwirfoddolwyr newydd a chodi ymwybyddiaeth o wasanaeth y Ganolfan Wirfoddoli. Ymunodd cynrychiolwyr o wahanol fudiadau sydd yn chwilio am wirfoddolwyr â'r stondin – diolch yn fawr iawn iddynt am eu cefnogaeth. Yn ogystal, trefnwyd sesiynau "Galw Heibio" ym Mlaenau Ffestiniog ac yn yr Institiwt yng Nghorris, a dosbarthwyd gwybodaeth am gyfleoedd gwirfoddoli yn Nhywyn yn ystod yr wythnos.

Bangor—3ydd Mehefin 2008

Pwllheli-4ydd Mehefin 2008

Porthmadog-5ed Mehefin 2008
Iola a Mirain yn y glaw

Y stondin yn Nolgellau
6ed Mehefin 2008

# Te Dathlu a Diolch

ii) **Te Dathlu a Diolch**

Uchafbwynt yr wythnos oedd y 'Te Dathlu a Diolch' a gynhaliwyd yn Oriel Plas Glyn-y-Weddw, Llanbedrog, Pwllheli, dydd Llun 9fed o Fehefin. Cafwyd prynhawn braf, a chyfle i fwynhau'r lleoliad ar ei orau. Y gŵr gwadd am y prynhawn oedd Mr Richard Brunstrom – Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru, a thalwyd y diolchiadau gan y Cynghorydd Evie Morgan Jones – Cadeirydd Cyngor Gwynedd. Cyflwynodd Mr R Brunstrom dystysgrifau i nifer o wirfoddolwyr ymroddgar o Wynedd – naw ohonynt wedi eu henwebu ar gyfer y gystadleuaeth 'Gwirfoddolwr y Flwyddyn Cymru 2008'.

Roedd y digwyddiad yn gyfle i gydnabod cyfraniad gwerthfawr gwirfoddolwyr yng

Y Prif Gwnstabl, Mr Richard Brunstrom yn mwynhau'r Te gyda gwirfoddolwyr o Wynedd

**Rhai gwirfoddolwyr wedi derbyn eu Tystysgrifau Cymeradwyaeth Uchel yng nghystadleuaeth 'Gwobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn Cymru 2008'**

Chwith i dde - Ffion Parker, John Boulter, Richard Brunstrom,

Mr Richard Brunstrom gyda criw 'Y Ffynnon' - o ardal Bangor

Elinor Ellis a Zonia Pinnington ar ran Cyfeillion Plas Glyn y Weddw.

*Gweler yr erthygl 'Gwobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn 2008' i gael manylion llawn o'r rhai dderbyniodd dystysgrif o Wynedd.*